# Datganiad Diogelu Data Gweithgarwch Cyffredinol yr Adran Teithio a Fflyd

## Crynodeb

Mae Prifysgol Aberystwyth yn rheolydd data o dan ddeddfwriaeth gyfredol diogelu data. Dyma gyfeiriad cyswllt y Brifysgol:

Swyddfa'r Is-ganghellor
Prifysgol Aberystwyth
Y Ganolfan Ddelweddu
Campws Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BF

Mae angen i Adran Teithio a Fflyd Prifysgol Aberystwyth dderbyn ac, o bryd i'w gilydd, brosesu gwybodaeth bersonol am unigolion er mwyn gallu cynorthwyo Athrofeydd ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol i ddarparu gwasanaethau cymorth teithio a fflyd addas i'w staff, myfyrwyr ac, mewn rhai achosion, ymwelwyr neu westeion. Mae'r Adran Teithio a Fflyd yn ymrwymedig i ddiogelu preifatrwydd ei defnyddwyr trwy gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data gyfredol, gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), a chadw at arferion gorau cyfredol.

## Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth

Pan fyddwch yn trefnu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â cherbydau ac/neu deithio ar fusnes, bydd y wybodaeth a gymerwn gennych yn cael ei phrosesu ar sail diddordeb cyfreithlon yr Adran Teithio a Fflyd mewn prosesu'r data hwnnw gan ei fod, ar y cyfan, er budd y Brifysgol a'r unigolion perthnasol i fod angen manylion ffeithiol ar gyfer gweinyddu trefniadau teithio a fflyd, i fodloni disgwyliadau cyfreithiol ac i gadw at reolau a rheoliadau'r sefydliad (Deddf GDPR 6[1][f]). Os yw gyrru yn rhan hanfodol o'ch disgrifiad swydd, prosesir yr wybodaeth ar y sail bod hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract (Deddf GDPR 6[1][b]).

Byddwn yn gofyn eich caniatâd i brosesu unrhyw wybodaeth sensitif, megis cyflyrau meddygol a byddwn yn prosesu'r wybodaeth hon yn seiliedig ar y caniatâd hwnnw (GDPR erthygl 6[1][a]). Gall y math hwn o wybodaeth ac/neu brosesau posibl gynnwys, ond nid y rhain yn unig, asesiadau risg a gwybodaeth feddygol fel rhan o'r broses asesu a rheoli. Cofiwch, gallwch anfon e-bost atom i trlstaff@aber.ac.uk i newid eich gwybodaeth neu ofyn am gael gwared ar wybodaeth benodol o'n systemau neu ofyn cwestiynau am y ffordd rydym yn prosesu eich gwybodaeth.

Efallai y bydd angen data personol unigolion er mwyn cynorthwyo â darparu canllawiau sy'n ymwneud ag amgylchiadau penodol unigolyn. Rhoddir y data hwn gan yr unigolyn ac/neu eu Hathrofa/Adran a gall gynnwys manylion megis enw, adran, manylion cyswllt a manylion meddygol. Bydd angen darparu'r wybodaeth hon er mwyn caniatáu i'r Brifysgol arfer ei dyletswydd gofal cyfreithiol am iechyd, diogelwch a lles yr holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr, yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

## Sut rydym yn casglu gwybodaeth

Er mwyn gwneud cais am dystysgrifau teithio a hawliadau modur ac/neu deithio, cyflwyno ceisiadau ar gyfer gyrwyr awdurdodedig neu fflyd lwyd neu chwilio am gymorth gyda chosbau a dirwyon, gofynnwn i chi roi gwybodaeth sylfaenol i ni a fydd yn ein helpu i'ch adnabod a rhoi modd i ninnau eich cynorthwyo i gael y gwasanaeth gorau gan ein tîm.

Trwy ffurflenni cais wedi'u llenwi ymlaen llaw neu geisiadau am ffurflenni (gan gynnwys statws meddygol)

Trwy system fenter ABW

Yn bersonol oddi wrthych chi

Trwy drydydd parti e.e. DVLA

Nid yw'r wybodaeth a gesglir at y dibenion hyn bob amser yn cael ei diffinio fel data sensitif (neu ddata categori arbennig) o dan y GDPR ond, yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr ymholiad, efallai y bydd angen datgelu gwybodaeth sensitif.

## Y wybodaeth yr ydym yn ei chasglu

Mae'n rhaid i ni fedru adnabod staff, myfyrwyr (ac ymwelwyr perthnasol) a'u statws a'u manylion cysylltiedig o ran unrhyw ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â chyfraith traffig ffordd neu yswiriant neu rwymedigaethau dyletswydd gofal Iechyd a Diogelwch gan eu bod yn ymwneud â gweithgareddau teithio busnes.

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol megis eich enw llawn, cyfeiriad a manylion cyswllt yn ogystal â manylion ynghylch perthynas agosaf.

Gall hefyd gynnwys data mwy sensitif fel unrhyw faterion meddygol a allai effeithio ar eich gallu i yrru neu deithio neu fanylion eich cerbyd eich hun, y ddarpariaeth yswiriant arno a'ch cofnodion gyrru gyda'r DVLA (gan gynnwys euogfarnau ac ardystiadau).

## Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth

Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i greu tystysgrifau teithio a phroffiliau gyrwyr at ddibenion cyfreithiol cydymffurfio â thrwyddedau gyrru ac yswiriant.

Rydym yn defnyddio'ch dyddiad geni i sefydlu proffil risg yswiriant o ran y darpariaethau yswiriant ychwanegol a osodwyd gan ein darparwyr yswiriant petai unrhyw hawliad, yn ogystal â manylion unrhyw euogfarnau gyrru neu ardystiadau i bennu pa mor aml y mae angen cynnal gwiriadau dilynol ar statws trwyddedau.

Mae cael cronfa ddata o yrwyr awdurdodedig yn ein galluogi i weithredu'n effeithlon, gan sicrhau bod y Brifysgol yn deall statws a phroffil risg gyrwyr galwedigaethol sy'n teithio a gyrru ar gyfer gwaith.

Rydym yn defnyddio manylion meddygol i benderfynu, gyda'n darparwr yswiriant, a oes unrhyw risgiau uchel ar deithiau arfaethedig.

Efallai y bydd angen rhannu data gyda sefydliadau allanol megis darparwyr yswiriant i benderfynu ar broffiliau risg ar gyfer gweithgareddau sy’n gysylltiedig â theithio a’r fflyd.

## Eich dewisiadau

Gallwch bennu sut rydym yn cysylltu â chi, a gofyn am gael eich tynnu oddi ar restrau postio.

Mewn rhai amgylchiadau, yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu, efallai y gallwch ofyn am i’r holl ddata personol sy’n ymwneud â chi gael ei dynnu o’n systemau. Fodd bynnag, cofiwch y gallai hyn olygu y bydd yn rhaid i chi ailgyflwyno data ar yr adeg briodol i sicrhau bod cyfrifoldebau cyfreithiol a dyletswydd gofal y Brifysgol yn parhau i gael eu cyflawni.

## Sut rydym yn diogelu eich gwybodaeth bersonol

Caiff data Teithio a Fflyd ei gadw’n ganolog ar weinyddion ffeiliau gyriant cyffredinol y Brifysgol. Mae hyn yn ein galluogi i gael cronfa ddata gadarn wedi’i diogelu i sicrhau nad yw eich gwybodaeth yn cael ei rhannu’n allanol.

Nid ydym yn rhannu eich gwybodaeth â phartïon allanol heblaw i fodloni’r gofyniad cyfreithiol statudol a nodir isod. Er enghraifft, gellid ar adegau rannu gwybodaeth gydag Yswirwyr y Brifysgol ac/neu gynrychiolwyr cyfreithiol mewn achosion lle y gellid ymgyfreitha oherwydd anaf personol. Nid yw data personol at y diben hwn yn cael ei rannu â sefydliadau y tu allan i’r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

Nid ydym yn dosbarthu rhestrau postio i sefydliadau allanol.

## Ffurflenni

Pan fyddwch yn gofyn am ddogfennaeth ac/neu ganiatâd teithio neu fflyd, rydym yn gofyn i chi roi gwybodaeth i’n galluogi i brosesu eich cais drwy ddefnyddio ffurflenni priodol.

Mae enghreifftiau o’r gwahanol ffurflenni hyn ar gael ar-lein ar ein tudalennau teithio a fflyd ar y We.

Gallwch yrru neges e-bost atom i trlstaff@aber.ac.uk i newid eich gwybodaeth neu ofyn am dynnu gwybodaeth o’n systemau.

## Hawl mynediad

Mae gennych hawl i ofyn am ganiatâd i weld pa ddata sydd gennym ar eich cyfrif a sut rydym yn defnyddio’r wybodaeth honno i brosesu eich cais.

Caiff data ei storio’n ddiogel ar weinyddion y Brifysgol. Bydd y cyfnod y caiff ei gadw yn amrywio yn dibynnu ar natur y wybodaeth, ac yn unol â pholisi cadw’r Brifysgol. Caiff rhai cofnodion copi caled ar bapur hefyd eu cadw, fel rheol ar gyfer archwiliadau awdit a chraffu.

O ran polisi cadw, bydd y setiau data canlynol yn cael eu cadw ar ffeil ar gyfer y cyfnodau canlynol cyn eu dileu / dinistrio:-

| | | |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth gyrrwr awdurdodedig** | Ffurflen gyrrwr awdurdodedig:<br><br>• Dyddiad geni<br>• Rhif trwydded yrru<br>• Dedfrydau / pwyntiau cosb<br>• Digwyddiadau diweddar<br>• Cyflyrau meddygol hysbysadwy | Am 12 mis ar ôl derbyn cadarnhad o awdurdodiad. Gellid cario rhywfaint o wybodaeth ymlaen wrth adnewyddu statws gyrrwr awdurdodedig. |
| **Gwybodaeth Fflyd Lwyd** | Cais Fflyd Lwyd:<br><br>• Dyddiad geni<br>• Rhif trwydded yrru<br>• Rhif cofrestru'r cerbyd<br>• Dedfrydau / pwyntiau cosb<br>• Digwyddiadau diweddar<br>• Cyflyrau meddygol hysbysadwy<br>• Tystysgrif yswiriant cerbyd modur personol. | Am 12 mis ar ôl derbyn cadarnhad neu hyd nes y caiff yswiriant modur ei adnewyddu. |
| **Tâl cosb** | Casglu data yn unol â'r broses: (Dim ond os oes angen sefydlu cyfrif newydd )<br><br>• Cyfeiriad<br>• Rhif a chod didoli cyfrif banc. | Cedwir unrhyw wybodaeth bersonol mewn perthynas â thaliadau cosb/dirwyon am hyd at flwyddyn neu hyd nes y bydd proses y gosb/dirwy wedi'i chwblhau'n llawn. |
| **Gwybodaeth yswiriant cerbyd modur** | Ffurflen hawlio damwain modur:<br><br>• Cyfeiriad<br>• Dyddiad geni<br>• Rhif trwydded<br>• Cyflwr meddygol hysbysadwy | I'w chadw gan y Brifysgol am 12 mis ar ôl cwblhau'r hawliad.<br><br>Bydd yswirwyr y Brifysgol yn cadw eu cofnodion am hawliadau yn unol â'u polisi GDPR eu hunain. |
| **Gwybodaeth yswiriant teithio** | Ffurflenni hawlio teithio perthnasol:<br><br>• Dyddiad geni<br>• Cyfeiriad<br>• Triniaeth/cyflwr meddygol<br>• Tystiolaeth i gefnogi'r hawliad | I'w chadw gan y Brifysgol am 12 mis ar ôl cwblhau'r hawliad.<br><br>Bydd yswirwyr y Brifysgol yn cadw eu cofnodion am hawliadau yn unol â'u polisi GDPR eu hunain. |

## Gwybodaeth Bellach

Fel gwrthrych data, mae gennych amrywiaeth o hawliau mewn perthynas â'r data sydd gan y Brifysgol amdanoch chi. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/policies/dp/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynghylch yr uchod, cysylltwch â'r Rheolwr Diogelu Data a Hawlfraint, Dr Jonathan Davies, yn infocompliance@aber.ac.uk.